CIWB

# Atebion

**Y Sleidiau**

| | |
|---|---|
| Sleid 1 a 2: | Big Ben, Llundain |
| Sleid 3 a 4: | Tŵr Eiffel, Paris |
| Sleid 5 a 6: | Y Stadiwm Genedlaethol, Beijing |
| Sleid 7 ac 8: | Tŷ Opera, Sydney |
| Sleid 9 a 10: | Yr Acropolis, Athen, Groeg |
| Sleid 11: | Y Ddaear o'r gofod |

**Cwestiynau**

1. Beth sy'n digwydd yn y sleidiau yma?
Mae pobl yn dathlu **Awr y Ddaear – Earth Hour.**

Mae miliynau o bobl yn dathlu Awr y Ddaear bob mis Mawrth. Maen nhw'n diffodd y golau am awr, rhwng hanner awr wedi wyth a hanner awr wedi naw. Maen nhw'n diffodd y golau mewn cartrefi, mewn siopau, mewn ysgolion, mewn pob math o adeiladau. Mae Buckingham Palace yn diffodd y golau hefyd.

Mae hyn yn digwydd ar draws y byd.

Beth arall sy'n digwydd:

- Mae rhai pobl yn cael parti neu ginio arbennig – yn y tywyllwch.
- Mae rhai bandiau, fel McFly, yn gwisgo dillad panda ac yn perfformio yn y tywyllwch.
- Mae rhai pobl yn cael parti stryd yn y tywyllwch.

Mae'r WWF (World Wildlife Fund) yn trefnu Awr y Ddaear.

**2. Pam mae hyn yn digwydd?**
Mae'r bobl eisiau cofio am y blaned. Maen nhw'n dweud, "Mae'r blaned mewn perygl. Dylen ni helpu'r blaned."

Mae'n symbol – mae'n dangos, "Rydyn ni'n gallu gwneud pethau bach – fel diffodd y golau – i helpu'r blaned."

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| diffodd | to switch off | tywyllwch | darkness |
| golau | light | trefnu | to organize |
| pob math | all kinds | cofio | to remember |
| adeilad, adeiladau | building, buildings | mewn perygl | in danger |
| digwydd | to happen | peth, pethau | thing, things |
| ar draws y byd | across the world | | |